

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	6ed o Fedi 2017
TEITL	Cais Cynllunio - The Shanty, Abersoch
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau
AWDUR	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynnwys ar raglen y Cydbwyllgor Ymgynghorol (CY) ar gais y Cadeirydd. Mae'n ymwneud â chais cynllunio i ddymchwel tŷ ac chodi tŷ newydd yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

2.0 THE SHANTY, ABERSOCH

2.1 Mae'r cais yn ymwneud â thŷ o'r enw The Shanty sydd wedi ei leoli ar drwyn Penbenar, Abersoch. Ar hyn o bryd mae tŷ unllawr ac adeiladau eraill ar y safle.

2.2 Y bwriad yw dymchwel y tŷ a'r holl adeiladau a chodi tŷ newydd, mwy o faint ar 3 lefel. Mae'r adeilad wedi ei ddylunio gan gwmni o benseiri siartedig gan anelu i fod yn addas ar gyfer y safle arfordirol unigryw ar y trwyn.

2.3 Gellir gweld holl fanylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd (Cynllunio a Rheolaeth Adeiladau). Rhif y cais yw **C17/0159/39/LL**.

3.0 EFFAITH AR YR AHNE

3.1 O ran ystyried yr effaith tebygol ar yr AHNE mae'r materion canlynol yn berthnasol:

- Lleoliad y safle ar yr arfordir yn yr AHNE
- Pa mor weladwy yw'r safle o fannau cyhoeddus gerllaw
- Fod adeiladau ar y safle ar hyn o bryd (heb eu rhestru)
- Yr adeiladau eraill gerllaw (maint, dyluniad, deunyddiau)
- Maint a dyluniad yr adeilad newydd arfaethedig
- Y deunyddiau a fwriedir
- Effaith posibl ar olygfeydd o'r Llwybr Arfordir uwchben y safle

3.2 Yn unol â chytundeb gwasanaeth mae'r Gwasanaeth AHNE wedi darparu sylwadau ar y cais dan sylw. Gellir gweld y sylwadau hyn ar safle we'r Cyngor yn ogystal â sylwadau eraill a gyflwynwyd.

4.0 Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF

- 4.1 Mae'r cais eisoes wedi ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio ar 3ydd o Orffennaf 2017. Penderfynwyd bryd hynny i ohirio penderfyniad a chynnal Isbwyllgor Ymweld (Gellir gweld yr Adroddiad Cynllunio a manylion y drafodaeth ar safle we'r Cyngor).
- 4.2 Bydd y cais yn cael ei drafod eto, yn dilyn ymweliad safle, yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhelir ar **Fedi'r 25ain** ym Mhwllheli.

5.0 ARGYMHELLIAD

- 5.1 **I ystyried y mater dan sylw a'r effaith tebygol ar yr AHNE.**
- 5.2 **I gyflwyno sylwadau i sylw'r Adran Gynllunio mewn perthynasol â'r datblygiad arfaethedig os oes pryderon am yr effaith tebygol ar yr AHNE.**